

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

'Law yn Llaw at Iechyd'

Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc

1. Cyflwyniad

Mae strôc yn glefyd y mae modd ei atal a'i drin. Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae corff cynyddol o dystiolaeth wedi gwyrddroi'r amgyffrediad traddodiadol bod strôc yn digwydd o ganlyniad i heneiddio sydd, yn anochel, yn arwain at farwolaeth neu anabledd difrifol.

Ym mis Rhagfyr 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru '*Law yn Llaw at Iechyd – Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc, Cynllun Cyflawni ar gyfer GIG Cymru a'i Bartneriaid*'. Mae'r cynllun hwn yn darparu gweledigaeth ar gyfer cyflenwi gwasanaethau strôc o ansawdd uchel sy'n adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes ledled Cymru. Mae'r cynllun yn amlinellu disgwyliadau'r llywodraeth ar gyfer pob rhanddeiliaid i fynd i'r afael â strôc ymhlith pobl o bob oedran sy'n byw yng Nghymru. Mae'n cynnwys camau gweithredu a deilliannau i'w cyflawni erbyn 2016.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (ABMUHB) wedi datblygu'r Cynllun Cyflawni Lleol hwn, yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru i ddarparu gofal strôc o ansawdd uchel i rai sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, gyda'r nod o gyflawni gwasanaeth strôc o safon fyd-eang.

Mae'r cynllun yn cwmpasu pob agwedd ar ofal strôc, o'i hatal i 'Fywyd ar ôl cael Strôc', ac mae'n darparu camau gweithredu manwl yn erbyn pob un o'r amcanion y gosododd Llywodraeth Cymru yn ei chynllun cyflawni yn y meysydd allweddol canlynol.

- **Atal strôc** – Mae pobl yn byw'n iach, yn gwneud dewisiadau iach ac yn lleihau'r risg y byddant yn cael strôc.
- **Canfod strôc yn gyflym** – Caiff strôc ei chanfod yn gyflym, lle bo'n digwydd neu'n ailddigwydd.
- **Rhoi gofal cyflym ac effeithiol** – Mae pobl yn cael triniaeth a gofal cyflym ac effeithiol fel bod ganddynt y siawns orau o fyw bywyd hir ac iach.
- **Cefnogi bywyd ar ôl strôc** – Mae pobl yn cael lle canolog mewn gofal strôc a chaiff eu hanghenion unigol eu nodi a'u bodloni er mwyn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael cymorth a gwybodaeth dda a'u bod yn gallu rheoli effeithiau strôc.
- **Gwella gwybodaeth** - Sicrhau bod dulliau cyflawni wedi'u seilio ar dystiolaeth glinigol a gwybodaeth strwythuredig.
- **Targedu ymchwil** – Datblygu rhaglenni ymchwil priodol yn unol â safonau priodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Iunio a chyhoeddi Cynllun Cyflawni Gwasanaeth Strôc Lleol manwl sydd â'r nod o nodi, monitro ac arfarnu'r camau gweithredu sydd eu hangen i wella gwasanaethau o fewn amserlenni diffiniedig. Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd gyhoeddi'r cynlluniau hyn ar eu gwefannau.

2. Baich Iechyd a Chymdeithasol Strôc

Mae Pyliau Ischaemig Byrhoedlog (TIA), sy'n aml yn cael eu disgrifio'n strociau bychain, yn effeithio ar 35 o bob 100,000 o bobl yn y DU bob blwyddyn. Mae'n bosibl mai'r rhain yw'r unig rybudd bod strôc fawr ar ddiwydd. Amcangyfrifir bod tua 11,000 o achosion o strôc, gan gynnwys 6,000 o achosion newydd, yng Nghymru bob blwyddyn. Mae strôc yn ddinistriol ac yn effeithio ar bobl o bob oedran, ac mae'r problemau corfforol a seicolegol sy'n deillio o strôc yn effeithio ar y cleifion a'u perthnasau, fel ei gilydd, am weddill eu bywydau.

3. Gwasanaethau Strôc Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (ABMUHB)

3.1 Proffil ABMUHB

Ffurfiwyd y Bwrdd Iechyd yn gyntaf ar 1 Hydref 2009, o ganlyniad i ad-drefnu'r GIG yng Nghymru. Mae'n gyfrifol am gynllunio a chyflenwi gwasanaethau iechyd sylfaenol, cymunedol ac eilaidd ar gyfer poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwasanaethu poblogaeth o oddeutu 500,000 o bobl. Rhaid i gynllunio a chyflenwi gwasanaethau ystyried ystod eang o grwpiau poblogaeth ar draws ardaloedd trefol, gwledig a dyffrynol hefyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi tua 16,500 o aelodau staff, y mae 70% ohonynt yn uniongyrchol gysylltiedig â gofal cleifion.

3.2 Grŵp Llywio ar gyfer Strôc ABMUHB

Sefydlwyd y grŵp hwn yn 2009 i ddod â phobl allweddol at ei gilydd i ddatblygu a goruchwyllo rhaglen waith i wella gwasanaethau strôc ar draws y llwybr strôc er mwyn gwella gwasanaethau strôc yn y Bwrdd Iechyd. Datblygwyd gwasanaethau gan ddefnyddio canllawiau cenedlaethol NICE a Choleg Brenhinol y Ffisigwyr, yn ogystal â Thargedau Call ar gyfer Strôc Llywodraeth Cymru, sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth.

Mae'r Grŵp Llywio yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Cyflawni "Newid er Gwell". Atodir cylch gorchwyl y grŵp fel Atodiad 1.

3.3 Atal Strôc


Mae camau gweithredu strategol i helpu i atal strôc trwy gefnogi pobl i fyw bywydau iach a gwneud dewisiadau iach wedi'u hamlinellu yn Fframwaith Strategol Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg 2013/14. Mae Grŵp Prosiect 'Cadw'n Iach' yn cael ei sefydlu i symud blaenoriaethau gwella iechyd ymlaen fel rhan o'r rhaglen Newid er

Gwell, sef gweledigaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer gofal y GIG yn y dyfodol i rai sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Mae'r grŵp yn adrodd i'r Bwrdd Cyflawni "Newid er Gwell".

3.4 Gwasanaethau Pyliau Ischaemig Byrhoedlog a Strôc

Darperir gwasanaethau strôc mewn pedwar ysbyty ar draws y Bwrdd Iechyd, mewn uned aciwt/tra-aciwt yn Ysbyty Treforys ac Uned Gyfunol yn Ysbyty Tywysoges Cymru. Mae'r ddwy uned yn darparu gwasanaethau tra-aciwt, gan gynnwys thrombolysis a gofal strôc aciwt, yn ogystal ag adsefydlu cynnar. Darperir adsefydlu parhaus a chynllunio cymhleth ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty yn Ysbyty Tywysoges Cymru i drigolion Pen-y-bont ar Ogwr, yn Ysbyty Singleton i drigolion Abertawe ac yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot i drigolion yng Nghastell-nedd Port Talbot. Yn ogystal ag mewn ysbytai, mae adsefydlu ar ôl cael strôc ar gael gan y tri thîm adnoddau cymunedol lleol, unedau cleifion allanol ac ysbytai dydd.

Gwasanaethau Strôc Presennol ABMUHB



Y llynedd, derbyniodd Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys 883 o gleifion strôc aciwt. Mae'r ddau ysbyty yn darparu gwasanaeth thrombolysis 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, a gall y driniaeth hon wella'r canlyniadau swyddogaethol yn sylweddol i rai sy'n dioddef strôc, os caiff ei rhoi'n gyflym ac i'r cleifion priodol.

Yn ogystal, cyfeiriwyd 1,120 o gleifion at ein llwybrau mynediad cyflym ar gyfer strociau bychain, sydd wedi'u lleoli yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr. Caiff cleifion eu gweld a'u hasesu cyn gynted â phosibl a chaiff y feddyginiaeth a'r ymyrraeth lawfeddygol briodol eu rhoi er mwyn lleihau'r perygl o strôc.

4. Archwiliadau Strôc Cenedlaethol/y Coleg Brenhinol

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn cyfranogi'n weithredol yn y rhaglen archwilio strôc genedlaethol a rhaglen archwilio Coleg Brenhinol y Llawfeddygon.

4.1 Rhaglen Archwilio Strôc Genedlaethol (SSNAP)

SSNAP yw'r ffynhonnell sengl newydd o gasglu set ddata ofynnol ar gyfer pob claf sydd wedi cael strôc. Ei nod yw darparu data cyson, rheolaidd a dibynadwy a fydd yn galluogi Byrddau Iechyd i:

- Archwilio gwasanaethau lleol yn erbyn Canllawiau Clinigol Cenedlaethol
- Meincnodi ansawdd a datblygiad eu gwasanaethau strôc, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

5. Cynllun Cyflawni Lleol ar gyfer Strôc ABMUHB

Mae'r cynllun lleol yn gosod yr amcanion a'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni gweledigaeth y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau strôc. Gellir gweld fformat tabl y cynllun ar dudalen chwech. Caiff cynnydd yn erbyn cyflawni'r cynllun hwn ei adrodd yn ffurfiol yn rheolaidd i'r Grŵp Gweithredol, Bwrdd Cyflawni "Newid er Gwell" a Llywodraeth Cymru.

Nod Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc ABMUHB yw cyflawni gwelliannau yn y chwe maes allweddol a amlinellwyd yng Nghynllun Cyflawni ar gyfer Strôc Llywodraeth Cymru, sef:

- Atal strôc
- Canfod strôc yn gyflym
- Rhoi gofal cyflym ac effeithiol
- Cefnogi bywyd ar ôl strôc
- Gwella gwybodaeth
- Targedu ymchwil

6. Gwasanaeth y Dyfodol

Gwnaed llawer o newidiadau i'r modd y caiff gwasanaethau strôc eu darparu yn ABMUHB er mwyn gwella ansawdd gofal strôc. Er mwyn parhau i symud ymlaen a sicrhau y gellir cyflawni'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc Lleol, mae angen model newydd ar gyfer gwasanaethau strôc. Mae ein gwasanaethau

strôc presennol yn cael eu hadolygu ar draws y Bwrdd Iechyd, o atal strôc i fywyd ar ôl strôc, fel rhan o'r rhaglen waith Newid er Gwell. Wedi i'r adolygiad gael ei gwblhau, caiff y Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc hwn ei ddiweddarau â chynllun gweithredu newydd.

Camau Gweithredu Allweddol Strategol					
Amcanion	Camau gweithredu	Canlyniad disgwylidig	Risgiau o ran cyflawni	Amserlen	Arweinydd
Adolygu gwasanaethau strôc a diweddarau'r cynllun cyflawni lleol, yn ôl yr angen	Adolygu'r gwasanaethau cyfredol yn erbyn argymhellion y cynllun cyflawni	Cyflwyno model gwasanaeth newydd yn y Bwrdd Iechyd (BI)	Canlyniad Ymgynghoriad Rhaglen De Cymru	Mawrth 2014	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc
Adrodd ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu a mesurau perfformiad Llywodraeth Cymru	Cwblhau adroddiad cynnydd, yn ôl yr angen	Cyflwyno adroddiadau cynnydd i'r BI Adrodd i Lywodraeth Cymru ar gynnydd a'r newyddion diweddaraf	Dim	Bob chwarter	Arweinydd Gweithredol ar gyfer Strôc Arweinydd Rheoli ar gyfer Strôc
Cyhoeddi'r cynllun gweithredu ac adroddiadau cynnydd ar wefan y Bwrdd Iechyd (BI)	Cytuno ar y fformat a'r mesurau ar gyfer cyhoeddus	Gall pob rhanddeiliad weld y cynllun a'r adroddiadau cynnydd yn rhwydd	Argaeledd data	Hyd 2013	Arweinydd Gweithredol ar gyfer Strôc Arweinydd Rheoli ar gyfer Strôc
Diweddarau'r Cynllun Cyflawni, yn ôl yr angen.	Diweddarau'r Cynllun Cyflawni, yn ôl yr angen	Sicrhau bod y cynllun cyflawni cyfredol ar gael ar y wefan	Argaeledd data	Bob blwyddyn	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc

1. Atal strôc – lleihau'r risg o strôc trwy annog pobl i fyw'n iach

Dangosydd canlyniadau

- Cyfraddau nifer y strociau

Mesurau sicrwydd

- Monitro ffactorau risg

Amcanion	Camau gweithredu	Canlyniad disgwylidig	Risgiau o ran cyflawni	Amserlen	Arweinydd
Sicrhau y caiff canlyniadau poblogaeth lleol priodol eu nodi mewn Cynlluniau Integredig Sengl ac y caiff camau gweithredu'r holl bartneriaid ar gyfer cyflawni'r canlyniadau hyn eu gosod yn glir, eu monitro a'u mesur.	Adolygu'r Cynllun Integredig Sengl gyda phartneriaid a sicrhau y cynhwysir ymwybyddiaeth o strôc	Y cynhwysir ymwybyddiaeth o strôc mewn Cynlluniau Integredig Sengl a bod partneriaid yn adrodd yn ôl ar ganlyniadau	Nid yw ymwybyddiaeth o strôc wedi'i nodi mewn cynlluniau ar hyn o bryd	Mehffin 2014	Arweinydd Rheoli ar gyfer Strôc
Cydweithio â phartneriaid perthnasol i nodi, gweithredu ac archwilio strategaethau lleol, canlyniadau poblogaeth a mesurau perfformiad sydd wedi'u datgan yn glir a thargedau ar gyfer atal strôc.	Cydweithio â sefydliadau partner i ddatblygu ymgyrchoedd i : hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o ffactorau risg strôc yn well; hyrwyddo pwysigrwydd adnabod y symptomau sy'n ymddangos a chymryd camau h.y. prawf F.A.S.T (Wyneb, Breichiau, Lleferydd, Amser) sy'n rhybuddio am ddechrau strôc.	Lleihau nifer y strociau Cynyddu cyfradd y thrombolysis a chyflwyno i'r ysbyty ynghynt. Parhau i ganfod, monitro a rheoli clefyd cardiofasgwlar h.y. pwysedd gwaed uchel, diabetes a lefelau	Mae angen herio'r ffaith nad yw partneriaid yn rhoi blaenoriaeth i atal strôc Nid oes cysylltiadau priodol â meddygon teulu	2016 Archwilio'n flynyddol	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc

	<p>Darparu dull mwy systematig a chydlynol o ganfod y rhai sydd mewn perygl o ddiodef clefyd cardiofasgwlar a ffibriliad atriol, a rheoli'r risg honno'n effeithiol.</p> <p>Rhoi protocolau 1,000 o fywydau ffibriliad atriol ar waith.</p> <p>Annog ysgolion iach ac amgylcheddau gwaith iach i gymryd camau i leihau ysmegu, gordewdra ac yfed alcohol mewn modd niweidiol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi cynllun gweithredu strategol gordewdra y BI ar waith • Rhoi cynllun gweithredu strategol rheoli tybaco y BI ar waith. 	<p>colesterol uchel.</p> <p>Cyfradd well o ganfod a rheoli ffibriliad atriol.</p> <p>Lleihau lefelau gordewdra, ysmegu ac yfed gormod o alcohol.</p>	<p>ar hyn o bryd.</p> <p>Ar hyn o bryd, ni chaiff y perygl o ffibriliad atriol ei fonitro'n rheolaidd gan feddygon teulu ar sail y boblogaeth</p> <p>Ni roddwyd cynlluniau ar waith</p>		
--	--	--	---	--	--

2. Canfod strôc yn gyflym

Dangosydd canlyniadau

- Cyfraddau mynychder strôc

Mesurau sicrwydd

Tystiolaeth o system gadarn i wella cydymffurfiad â chanllawiau strôc cenedlaethol (Coleg Brehinol y Ffisigwyr (RCP) a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) a thargedau perfformiad Cymru.

- % y cleifion sy'n cael strôc/pwl ischaemig byrhoedlog (TIA) sy'n cael eu gweld ar y llwybr priodol a'u rheoli'n briodol.

Amcanion	Camau gweithredu	Canlyniad disgwylidig	Risgiau o ran cyflawni	Amserlen	Arweinydd
Ynghyd â'n partneriaid, codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o symptomau strôc a phwysigrwydd cael gofal meddygol yn gyflym, fel defnyddio prawf F.A.S.T;	Adolygu polisi Gwasanaeth Meddygol Brys Cymru (WEMS) ar flaenoriaethu strôc Bod yn ymwybodol o ymgyrchoedd F.A.S.T y Gymdeithas Strôc a'u hyrwyddo trwy gyfryngau a gwefannau ysbytai	Mae Derbynwyr Galwadau WEMS yn defnyddio System Anfon i Flaenoriaethau Meddygol, sy'n cynnwys offeryn diagnostic ar gyfer strociau er mwyn helpu i nodi strôc/TIA yn gynnar Ymwybyddiaeth gyhoeddus uwch o symptomau strôc	Yr amser y mae'n ei gymryd ar hyn o bryd i annog y torbwynt 5 awr Nid yw'r Gymdeithas Strôc yn cynnal ymgyrchoedd FAST ar hyn o bryd	Mawrth 2014	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc
Sicrhau bod gofal sylfaenol ac eilaidd a'r cyhoedd yn trin strôc/TIA fel argyfwng meddygol	Targedu rhaglenni addysgu ôl-raddedig a sesiynau dysgu neilltuedig Gofal Sylfaenol i hyrwyddo adnabod a rheoli strôc yn gynnar Adolygu'r arweiniad ar gyfer strôc/TIA sy'n cael	Mae gofal sylfaenol ac eilaidd yn cydnabod ac yn trin strôc/TIA fel argyfwng meddygol ac yn cyfeirio cleifion at y llwybr priodol e.e. gan sicrhau y caiff cleifion TIA â risg uchel eu gweld cyn pen 24 awr, a bod y rhai y tybir eu bod wedi cael strôc yn cael eu	Ar hyn o bryd, nid yw clinigwyr mewn ysbytai a gofal sylfaenol yn trin strôc fel 'trawiad ar yr ymennydd', ac maent yn rhoi triniaeth lai brys nag ar gyfer trawiad ar y galon. Diffyg ymwybyddiaeth	Gorffennaf 2014	Arweinydd Clinigol ar gyfer Strôc

	ei roi i ofal sylfaenol ac eilaidd am flaenoriaeth strôc a'r newyddion diweddaraf ar gamau gweithredu	gweld mewn ysbyty fel mater o frys.	o arweiniad ymhlith staff clinigol.		
Cydweithio â meddygon teulu a chydweithwyr meddygol eraill i godi eu hymwybyddiaeth o'r symptomau;	Bydd arweinwyr clinigol yn sicrhau y caiff strôc ei chynnwys mewn rhaglenni ôl-raddedig a rhaglenni addysgu/datblygu eraill.	Mae gofal sylfaenol ac eilaidd yn cydnabod ac yn trin strôc/TIA fel argyfwng meddygol ac yn cyfeirio cleifion at y llwybr priodol.	Nid oes hyfforddiant ar gael	Parhaus	Arweinydd Clinigol ar gyfer Strôc
Sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio ag arweiniad cenedlaethol a phrotocolau a llwybrau cyfeirio cytûn;	Archwilio'r llwybr ar gyfer strociau tybiedig a gweithredu ar y canfyddiadau er mwyn gwella gwasanaethau ar gyfer eu canfod yn gynnar trwy barhau i gasglu data, gan ddefnyddio archwiliadau'r Rhaglen Archwilio Strôc Genedlaethol (SSNAP), a fydd yn cynnwys adborth gan gleifion.	Caiff asesiad a thriniaeth fuan a phriodol eu rhoi i gleifion strôc, wedi'u seilio ar dystiolaeth.	Casglu data yn wael	Parhaus	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc
Sicrhau bod modd manteisio ar wasanaeth gweithredol ar gyfer strôc a phylliau ischaemig byrhoedlog saith niwrnod yr wythnos;	Adolygu'r llwybrau ar gyfer gwasanaethau strôc a TIA er mwyn datblygu model i ddarparu gweithio 7 niwrnod. Bydd ardaloedd yn adolygu'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd	Darparu gwasanaeth strôc 7 niwrnod yr wythnos mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy.	Heriau o ran adnoddau ac argaeledd staff. Heriau o ran recriwtio meddygon strôc arbenigol.	Mawrth 2014	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc

	yn erbyn proffil galw ac yn datblygu achosion busnes i wella lefelau staffio, yn ôl yr angen.				
--	---	--	--	--	--

3. Rhoi triniaeth a gofal cyflym ac effeithiol

Dangosyddion canlyniadau

- Marwolaeth o fewn 30 diwrnod o gael eu derbyn i'r ysbyty
- Mesurau canlyniad cofnodedig (graddfeydd Rankin, Barthel a NIHSS wedi'u haddasu)

Mesurau Sicrwydd

Tystiolaeth o wasanaeth a safon uchel

- % y cleifion sy'n cael thrombolysis
- Cydymffuriad â thargedau perfformiad Llywodraeth Cymru a chyflawni canllawiau NICE/RCP

Amcanion	Camau gweithredu	Canlyniad disgwylidig	Risgiau o ran cyflawni	Amserlen	Arweinydd
Adolygu, cynllunio a rhoi triniaeth amserol wedi'i seilio ar dystiolaeth, yn unol â'r dystiolaeth, safonau a'r arweiniad diweddaraf.	Adolygu canllawiau RCP 2012 a chanlyniadau archwiliadau a gweithredu ar gydymffuriad. Adolygu modelau gwasanaeth er mwyn darparu'r gofal gorau posibl.	Gwasanaeth gwell a gydnabyddir gan archwiliadau a chanllawiau RCP.	Pwysau gofal heb ei drefnu. Angen datblygu tîm Rhyddhad Cynnar â Chymorth arbenigol ar gyfer strôc. Diffyg adnoddau i ddarparu gwasanaeth 7 niwrnod.	Cwblhawyd	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc
Canfod dull o gynllunio a darparu mynediad cyfartal at weithdrefnau, technolegau, triniaeth a thechnegau diagnostig newydd sy'n cydymffurfio â'r dystiolaeth a'r arweiniad diweddaraf.	Adolygu arloesiadau newydd mewn gofal strôc yn rheolaidd. Parhau â'r gwasanaeth Thrombolysis. Cynnal archwiliadau llywodraethu rheolaidd.	Darparu gwasanaeth Thrombolysis diogel a chynaliadwy. Integreiddio datblygiadau newydd wedi'u seilio ar dystiolaeth yn y llwybr ar gyfer strôc.	Pwysau gofal heb ei drefnu. Pwysau o ran adnoddau.	Parhaus	Meddygon strôc CNS strôc
Darparu mynediad amserol 24/7 i thrombolysis, lle bo hynny'n briodol, ynghyd â chymorth	Parhau â'r gwasanaeth presennol a monitro cydymffuriad bob 6 mis.	Thrombolysis yn unol â'r argymhellion yn y <i>Canllaw clinigol cenedlaethol ar</i>	Pwysau o ran adnoddau a gofal heb ei drefnu.	Parhaus	Meddygon strôc

telefeddygaeth, yn ôl yr angen.		<i>gyfer strôc, 2012</i>			CNS strôc
Darparu gwasanaethau arbenigol mewn safleoedd priodol, a fydd yn cynnwys niwroradiolog a niwrolawdriniaeth ymyrrol.	Bydd angen datblygu gwasanaeth a llwybr ar lefel Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar draws y byrddau iechyd.	Mynediad at wasanaeth niwrowyddorau sy'n darparu ymyriadau niwrolawfeddygol.	Dyrannu adnoddau a phwysau gofal heb ei drefnu. Canlyniad rhaglen De Cymru a Newid er Gwell.	2016	Grŵp Cyflawni ar gyfer Strôc a BASP
Darparu mynediad at lawdriniaeth fasgwlaidd ar gyfer ymyrraeth garotid o fewn amserlenni a bennir mewn canllawiau cenedlaethol.	Parhau i ddarparu gwasanaeth ar gyfer endarterectomi carotid. Adolygu canlyniadau archwiliad Coleg Brenhinol y Llawfeddygon o endarterectomi carotid.	Mynediad amserol at wasanaeth llawfeddygol fasgwlaidd aciwt.	Heriau o ran gallu cael amser yn y theatr ar gyfer llawdriniaeth fasgwlaidd.	Cwblhawyd	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc
Darparu gwasanaeth adsefydlu cynnar cadarn mewn ysbytai, gan gynnwys cymorth seicolegol, yn unol â'r safonau cenedlaethol.	Cymryd rhan mewn archwiliadau SSNAP. Symud cynlluniau ymlaen i gyfuno gwasanaethau ar gyfer strôc. Ystyried y cynllun busnes ar gyfer gwasanaethau seicoleg.	Bydd pob claf sy'n cael ei asesu fel bod yn briodol yn gallu mynd i uned strôc ar gyfer clefion mewnol, sy'n gallu darparu gwasanaeth adsefydlu ar ôl cael strôc, fel yr argymhellir yn y Canllaw ar gyfer strôc, 2012 e.e. prawf sgrinio llyncu, statws maethiad a sgrinio ar gyfer hydradiad cyn pen 4 awr o gael ei dderbyn.	Pwysau o ran adnoddau. Mae angen ail-ddylunio systemau gwasanaethau.	Mawrth 2014	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc
Darparu mynediad at wasanaeth adsefydlu cymunedol cadarn, yn unol â'r safonau cenedlaethol.	Symud cynlluniau ymlaen i gyfuno gwasanaethau strôc a datblygu tîm cymunedol.	Tîm adsefydlu cymunedol yn cael ei ddatblygu ac yn darparu'r gwasanaeth.	Nid oes cyllid wedi'i nodi ar hyn o bryd.	Mawrth 2014	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc
Cymryd rhan a gweithredu yn unol â chanlyniadau archwiliadau	Adolygu canllawiau 2012/13 RCP.	Mae defnyddwyr gwasanaethau yn cael	Argaeledd y data gofynnol.	Parhaus	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc

<p>clinigol cenedlaethol ac adolygu cymheiriaid, a myfyrio ar y camau gweithredu/dysgu i'w rhoi ar waith mewn cynllunio cyflawni lleol ar gyfer strôc.</p>	<p>Adolygu canlyniadau archwiliad SSNAP a gweithredu yn unol â'r canlyniadau.</p> <p>Casglu data gan ddefnyddio fframwaith SSNAP, a defnyddio gwybodaeth i wella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu.</p>	<p>profiad o wasanaethau wedi'u cydlynu'n dda, sy'n cydymffurfio â'r safonau a'r canllawiau cenedlaethol, sy'n ddiogel, yn gynaliadwy ac ar gael mor lleol â phosibl.</p>			
<p>Darparu gallu, gweithlu, seilwaith ac offer digonol i drin pobl sydd wedi cael strôc a gofalu amdanynt.</p>	<p>Symud cynlluniau ymlaen i gyfuno gwasanaethau strôc.</p> <p>Datblygu cynllun gweithlu i fodloni'r galw am wasanaeth a sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau a'r cymwyseddau sydd eu hangen.</p>	<p>Ailffurfweddu gwasanaethau, gan ddarparu mynediad gwell at wasanaethau strôc.</p>	<p>Pwysau o ran adnoddau a gofal heb ei drefnu.</p>	<p>Rhagfyr 2014</p>	<p>Grŵp Llywio ar gyfer Strôc</p>

4. Cefnogi bywyd ar ôl strôc

Dangosyddion Canlyniadau

Mesurau canlyniadau sy'n cael eu hadrodd gan gleifion (PROM)(i'w datblygu)

Mesurau Sicrwydd

Tystiolaeth o system gadarn ar gyfer mesur a gwella'r profiad i gleifion sy'n byw gyda strôc

- % y bobl sydd â phasbort strôc (cynllun gofal strôc unigol a llyfryn gwybodaeth) ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty
- % y bobl sy'n cael cymorth i adael yr ysbyty gan dîm strôc cymunedol medrus
- % y bobl sy'n cael eu hadolygu ar ôl 6 mis

Amcanion	Camau gweithredu	Canlyniad disgwylidig	Risgiau o ran cyflawni	Amserlen	Arweinydd
Sicrhau bod y tîm arbenigol yn cydlynu rhyddhau cleifion o'r ysbyty a bod hyn yn cynnwys mewnbwn gan gleifion, gofawyr, gweithwyr cymdeithasol ac yn cael ei gyfathrebu i'r meddyg teulu.	Adolygu'r dogfennau rhyddhau presennol a diweddarau'r cynnwys a'r derbynyddion, fel y bo'n briodol.	Trefniadau rhyddhau cadarn ar waith.	Pwysau o ran adnoddau staff ym mhob sefydliad partner. Heriau o ran rhannu gwybodaeth ar draws sefydliadau.	Cwblhawyd	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc
Cynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig i fodloni anghenion parhaus pobl sydd wedi cael strôc mor lleol ag sy'n bosibl, er mwyn eu helpu i wella a bod yn annibynnol.	Cydweithio â sefydliadau partner i ddatblygu cynlluniau integredig.	Bydd gwasanaethau bywyd ar ôl strôc ar gael mor lleol ag sy'n bosibl. Bydd gofal y GIG, llywodraeth leol a'r trydydd sector wedi'i integreiddio ac yn ddi-dor.	Pwysau o ran adnoddau i bob partner a heriau newydd yn y modd y caiff gwasanaethau eu darparu	Mawrth 2015	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc
Datblygu cynlluniau gofal priodol i gytuno ar ofal a chymorth, wedi'u seilio ar anghenion unigolion ar ôl iddynt gael diagnosis o strôc.	Adolygu'r trefniadau presennol a datblygu cynlluniau gofal newydd, fel y bo'n briodol.	Cymorth gwell ac integredig i rai sy'n wedi goroesi ar ôl cael strôc a'u teuluoedd.	Pwysau o ran adnoddau. Cyfranogiad cleifion gyda'r pasbort.	Mawrth 2014	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc, partneriaid mewn ALLau a chynrychiolwyr cleifion
Sicrhau bod y rhai sy'n goroesi ar	Gweithredu rhesymwaith	Gweithgarwch dilynol ac	Pwysau o ran	Adolygu	Grŵp Llywio

<p>ôl cael strôc ac sydd â nam gweddilliol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a rhoi cynlluniau gofal ar waith.</p>	<p>bywyd ar ôl strôc ar draws y bwrdd iechyd h.y. adolygiadau rheolaidd a gall cleifion a gofalwyr fanteisio ar gymorth am ba hyd bynnag y mae ei angen arnynt.</p>	<p>adolygiad i rai sy'n goroesi ar ôl cael strôc a'u teuluoedd.</p>	<p>adnoddau ar gyfer yr holl bartneriaid.</p>	<p>data gwaelodlin ar gyfer bywyd ar ôl strôc Hydref 2014</p>	<p>ar gyfer Strôc</p>
<p>Sicrhau y caiff y rhai sy'n goroesi ar ôl cael strôc eu sgrinio ar gyfer nam ar y golwg ac anghenion seicolegol.</p>	<p>Datblygu llwybr a system gyfeirio ar gyfer y ddau arbenigedd.</p>	<p>Mynediad at wasanaethau golwg a seicolegol, yn ôl yr angen.</p>	<p>Pwysau o ran adnoddau. Her o ran bodloni anghenion seicolegol cleifion a nam ar y golwg.</p>	<p>Ionawr 2014</p>	<p>Grŵp Llywio ar gyfer Strôc</p>
<p>Cynnwys cleifion strôc a'u gofalwyr mewn datblygu gwasanaethau yn y dyfodol, gan gynnwys ffyrdd creadigol o'u cefnogi, gwrandao ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud am benderfyniadau sy'n effeithio arnynt a darparu gwybodaeth a hyfforddiant hygyrch ac ystyrlon, pan fydd eu hangen arnynt.</p>	<p>Nodi a hwyluso cynnwys cleifion a'u gofalwyr mewn mynychu cyfarfodydd cynllunio gofal.</p>	<p>Bydd cleifion strôc a'u gofalwyr yn teimlo'n rhan o ddatblygu gwasanaethau strôc yn barhaus.</p>	<p>Dim</p>	<p>Rhagfyr 2013</p>	<p>Grŵp Datblygu ar gyfer Strôc a'r trydydd sector</p>
<p>Cynllunio a darparu gwasanaethau gofal lliniarol a diwedd bywyd mor lleol ag sy'n bosibl i fodloni anghenion pobl sydd wedi cael strôc, lle bo hynny'n briodol.</p>	<p>Archwilio defnydd blaenoriaethau diwedd bywyd Cymru gyfan. Edrych ar y defnydd o wasanaethau gofal lliniarol yn y gymuned.</p>	<p>Gall mwy o gleifion gael gofal a chymorth lliniarol a diwedd bywyd 24/7 mewn lle o'u dewis.</p>	<p>Pwysau o ran adnoddau</p>	<p>Mawrth 2015</p>	<p>Grŵp Llywio ar gyfer Strôc</p>

5. Gwella gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau

Dangosydd canlyniadau

- Cydymffuriad â chanllawiau strôc cenedlaethol, targedau perfformiad Llywodraeth Cymru a chyfranogiad mewn archwiliadau strôc cenedlaethol.

Amcanion	Camau gweithredu	Canlyniad disgwylidig	Risgiau o ran cyflawni	Amserlen	Arweinydd
Gweithio gyda rhai sydd wedi goroesi ar ôl cael strôc, eu gofalwyr a'r trydydd sector i sicrhau gwasanaeth cyfeirio effeithiol i ffynonellau gwybodaeth a chymorth.	Datblygu ac arfarnu rhaglenni addysgol a ffynonellau gwybodaeth i staff, cleifion a gofalwyr.	Rhaglenni addysgol a gwybodaeth yn cael eu darparu ar gyfer staff, cleifion a gofalwyr er mwyn gwella eu gwybodaeth am ofal strôc a ffynonellau gwybodaeth.	Pwysau o ran adnoddau	Mawrth 2014	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc, Y Gymdeithas Strôc a chynrychiolwyr cleifion
Asesu, cofnodi a bodloni anghenion gwybodaeth pobl gan ddefnyddio cynlluniau gofal ar y cyd.	Cyflwyno pasbort ar gyfer rhai sydd wedi goroesi ar ôl cael strôc i'w ddefnyddio mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol.	Gall rhai sydd wedi goroesi ar ôl cael strôc a'u gofalwyr fanteisio ar wybodaeth amserol wedi'i theilwra i'w hanghenion unigol, fel eu bod yn deall eu cyflwr, beth i'w wneud, beth i gadw golwg amdano a pha wasanaeth i gysylltu ag ef os bydd problemau'n codi.	Pwysau o ran adnoddau a chyfranogiad cleifion	Ionawr 2014	Grŵp Datblygu ar gyfer Strôc, Tîm Bywyd ar ôl Strôc
Cyhoeddi gwybodaeth reolaidd a hawdd ei deall am effeithiolrwydd gwasanaethau strôc lleol.	Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar wasanaethau strôc. Darparu mynediad at yr Archwiliad Strôc chwe-	Darparu gwybodaeth hygyrch a dealladwy am berfformiad gofal strôc y GIG o ran ei ddiogelwch, effeithiolrwydd a barn cleifion.	Pwysau o ran adnoddau. Diffyg cyfranogiad gan gleifion.	Rhagfyr 2013	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc

misol a data SSNAP.

6. Gwella Gwybodaeth Glinigol a Chynllunio Gwasanaeth

Dangosydd Canlyniadau

- Cydymffurfiad â chanllawiau strôc cenedlaethol, targedau perfformiad Llywodraeth Cymru a chyfranogiad mewn archwiliadau strôc cenedlaethol.

Amcanion	Camau gweithredu	Canlyniad disgwylidig	Risgiau o ran cyflawni	Amserlen	Arweinydd
Cofnodi a defnyddio gwybodaeth glinigol mewn cynlluniau ac i gynllunio a darparu gwasanaethau.	Cyfranogi a defnyddio data a geir o archwiliadau SSNAP i lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau strôc clinigol.	Defnyddio'r data a gesglir i wella ac ail-ddylunio gwasanaethau.	Mae pwysau o ran adnoddau yn herio casglu data	Adolygu'n barhaus	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc
Monitro perfformiad yn erbyn dangosyddion clinigol strôc a defnyddio'r canlyniadau i lywio a gwella gwasanaethau.	Cofnodi data fel yr uchod.	Monitro perfformiad a defnyddio gwybodaeth i sbarduno'r gwaith o wella ac ail-ddylunio gwasanaethau.	Mae pwysau o ran adnoddau yn herio casglu data	Adolygu'n barhaus	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc
Cynnal arolwg o farnau pobl sydd wedi cael strôc a'u gofalwyr mewn perthynas â'u profiad a chanlyniad eu triniaeth.	Ar y cyd â'r Gymdeithas Strôc, diweddarau'r holiadur boddhad cleifion presennol.	Datblygu holiadur boddhad cleifion ac arfarnu'r canlyniadau.	Ni nodwyd yr adnoddau hyd yn hyn	Ionawr 2014	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc
Gweithredu ar ganfyddiadau profiadau defnyddwyr gwasanaethau.	Adolygu canfyddiadau arolwg y Gymdeithas Strôc. Trafod profiadau cleifion mewn cyfarfodydd grwpiau defnyddwyr a gweithredu meysydd i'w gwella. Ardal Castell-nedd Port	Gwella gwasanaethau yn seiliedig ar farn cleifion a'u gofalwyr. Profiad gwell i gleifion. Darparu adroddiad	Ni nodwyd yr adnoddau hyd yn hyn.	Yn flynyddol Bob chwarter Bob	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc Grŵp Llywio ar gyfer Strôc Grŵp Llywio

	Talbot i gyflwyno system i gael yr holl gwynion yn ymwneud â chleifion strôc ar draws y Bwrdd Iechyd.	chwarterol ar gwynion cleifion i'r Grŵp Llywio.		chwarter	ar gyfer Strôc
--	---	---	--	----------	----------------

7. Targedu Ymchwil: trwy feithrin diwylliant ymchwil cryf

Dangosydd canlyniadau

- % y cleifion sydd wedi cael strôc sy'n cymryd rhan mewn treialon clinigol
- Nifer y prosiectau ymchwil yr ydym yn cyfranogi ynddynt bob blwyddyn

Amcanion	Camau gweithredu	Canlyniad disgwylidig	Risgiau o ran cyflawni	Amserlen	Arweinydd
Cynnig y cyfle i bob claf priodol fanteisio ar dreialon clinigol perthnasol.	Gweithio ar y cyd ag asiantaethau ymchwil i drafod a hyrwyddo ymchwil.	Mae staff yn teimlo'n hyderus ag ymchwil ac yn galluogi cleifion i ymrestru ar astudiaethau, fel y bo'n briodol.	Ni nodwyd yr adnoddau hyd yn hyn.	Mawrth 2015	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc a Phrifysgol Abertawe
Manteisio i'r eithaf ar gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil y GIG.	Gweithio ar y cyd â NISCHAR a Phrifysgol Abertawe i chwilio am gyfleoedd	Manteisio i'r eithaf ar y cyllid y gwneir cais amdano i wneud ymchwil ar draws y llwybr strôc	Ni nodwyd yr adnoddau hyd yn hyn.	Mawrth 2015	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc a Phrifysgol Abertawe
Darparu prosesau llywodraethu ymchwil effeithiol ac effeithlon er mwyn dechrau a chyflwyno treialon clinigol yn gyflym.	Defnyddio'r ymchwil a'r adnoddau datblygu sydd ar gael yn ABMUHB yn effeithiol	Datblygu llwybr ymchwil ar gyfer strôc	Ni nodwyd yr adnoddau hyd yn hyn.	Mawrth 2015	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc ac Ymchwil a Datblygu
Cefnogi ac annog gwaith ymchwil gwarchoddedig ar gyfer staff sy'n glinigol weithredol.	Adolygu'r ffyrdd y mae staff yn cymryd rhan mewn ymchwil ac yn rhannu arfer gorau ar hyn o bryd.	Cynyddu ymglymiad staff wrth dreialon clinigol.	Ni nodwyd yr adnoddau hyd yn hyn.	Mawrth 2015	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc ac Ymchwil a Datblygu
Adeiladu ar gynlluniau hyfforddi academiaidd a'u hymestyn er mwyn datblygu gweithlu tra medrus.	Cysylltu â rheolwyr pob grŵp i drafod cyllid ac amser astudio.	Staff yn mynychu ac yn cyflwyno cyrsiau addysgiadol.	Ni nodwyd yr adnoddau hyd yn hyn.	Mawrth 2015	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc ac Ymchwil a Datblygu

Hyrwyddo cydweithio â mentrau a chyfleusterau ymchwil allweddol ar gyfer strôc.	Gweithio ar y cyd â'r holl bartneriaid perthnasol.	Nodi cyfleoedd ymchwil priodol a chofrestru diddordeb.	Ni nodwyd yr adnoddau hyd yn hyn.	Mawrth 2015	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc ac Ymchwil a Datblygu
Cydweithio'n effeithiol â Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG eraill, prifysgolion a'r diwydiant yng Nghymru er mwyn cymhwyso ymchwil ynghynt a chyflwyno technoleg newydd i'r GIG.	Gweithio ar y cyd â'r holl bartneriaid perthnasol.	Nodi cyfleoedd priodol i gydweithio ar ymchwil.	Pwysau o ran adnoddau	Mawrth 2015	Grŵp Llywio ar gyfer Strôc ac Ymchwil a Datblygu

Dolenni gwybodaeth

<http://www.nice.org.uk/nicemedia/live/12018/41331/41331.pdf>

<http://www.rcplondon.ac.uk/sites/default/files/national-clinical-guidelines-for-stroke-fourth-edition.pdf>

http://www.rcplondon.ac.uk/sites/default/files/documents/ssnap-acute-organisational-audit_2012-public-report.pdf